# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

**2020 dsc 2**

*Troseddau gan gyrff corfforedig etc.*

## 6 Troseddau gan gyrff corfforedig etc.

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni gan—

(a) corff corfforedig;

(b) partneriaeth;

(c) cymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth.

(2) Mae person a grybwyllir yn is-adran (3) yn cyflawni'r drosedd hefyd os profir bod y drosedd—

(a) wedi ei chyflawni gan y person hwnnw, neu gyda'i gydsyniad neu ymoddefiad, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y person hwnnw.

(3) Y personau yw—

(a) mewn perthynas â chorff corfforedig, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall y corff corfforedig;

(b) mewn perthynas â phartneriaeth, partner yn y bartneriaeth;

(c) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, unrhyw swyddog i'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'i chorff llywodraethu.

(4) Yn is-adran (3)(a), ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas â chorff corfforedig y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau yw aelod o'r corff corfforedig.

(5) Yn y Ddeddf hon, ystyr "partneriaeth" yw—

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaethau 1890 (p. 39), neu

(b) partneriaeth gyfyngedig sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p. 24).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

### 7 Achosion: troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig

(1) Mae achos am drosedd o dan adran 1 yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth i gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid).

(2) Mae achos am drosedd o dan adran 1 yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth i gael ei ddwyn yn enw'r gymdeithas (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'i haelodau).

(3) Mae rheolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig yn gorff corfforedig.

(4) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925 (p. 86) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 7 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Troseddau gan gyrff corfforedig etc..